**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/ Councillor: Ali Ahmed, Norma Mackie, Sarah Merry and Chris Weaver** **Plaid/ Party: Llafur**

**Ward: Cathays** **Etholwyd yn Gyntaf/First Elected: Mai 2017**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Cawsom ein hethol i eistedd ar y Cyngor yn cynrychioli Ward Cathays ar 6 Mai 2017. Mae gan Ward Cathays tua 20,121 o breswylwyr, ac mae'n cynnwys ward cyfan Cathays, gan gynnwys yr Adeiladau Dinesig a Phrifysgol Caerdydd ynghyd â Chanol y Ddinas gan gynnwys yr orsaf drenau, Arena Motorpoint, Canolfan Dewi Sant, Heol-y-frenhines a Chanolfan Capitol ynghyd â'r Castell a Pharc Bute. Mae gan Cathays boblogaeth myfyrwyr mawr a Thai Amlfeddiannaeth ond mae hefyd yn ail-greu ymdeimlad cymunedol preswyl o Cathays fel rhan ffyniannus o'r Ddinas lle mae teuluoedd eisiau byw. Mae preswylwyr Canol y Ddinas gan mwyaf yn byw mewn fflatiau mewn dinas ffyniannus sy'n tyfu'n gyson.
Fe wnaethon ni ymgymryd â'r swyddi canlynol yn ystod y flwyddyn hon gan eistedd ar y pwyllgorau canlynol:

**Y Cynghorydd Ali Ahmed:**
Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio
Aelod o'r Pwyllgor Craffu Oedolion a'r Gymuned

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Y Cynghorydd Norma Mackie:**
Y Dirprwy Chwip
Aelod o'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol gan gynnwys 2 grŵp gorchwyl a gorffen
Aelod o'r Pwyllgor Craffu Polisi, Adolygu, Archwilio a Pherfformiad (PAAPh) gan gynnwys 1 grŵp gorchwyl a gorffen
Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac Amddiffyn y Cyhoedd
Aelod o Gymdeithas Pwyllgor Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd
Aelod o'r Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Y Cynghorydd Sarah Merry:**
Y Dirprwy Arweinydd
Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol
Cadeirydd Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol
Aelod o Fwrdd Coleg Caerdydd a'r Fro
Aelod o Gydbwyllgor Gwasanaethau Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Y Cynghorydd Chris Weaver:**
Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformio
Cadeirydd y Pwyllgor Amodau Cyflogaeth
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau
Aelod o'r Panel Ymgynghorol Buddsoddi
Cadeirydd y Cyngor Gwaith
Cadeirydd y Fforwm Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch
Aelod o'r Prosiect Gwyrdd

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

Rydym wedi cynrychioli etholwyr mewn Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu ac yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llawn. Rydym wedi mynychu ymgynghoriadau cyn cynllunio niferus gyda datblygwyr.

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Rydym yn cynnal 6 cymhorthfa ward a chymhorthfa ar y cyd misol gyda'r AS Jo Stevens ac wedi delio â channoedd o faterion preswylwyr gan gynnwys Tai, y Dreth Gyngor, Budd-daliadau, Gofal Iechyd, Ffyrdd a Phriffyrdd, parcio, parciau, cyffuriau, teulu, contractwyr, diogelu.

Rydym wedi mynychu cyfarfodydd PACT rheolaidd, cyfarfodydd a digwyddiadau yn y Ganolfan Gymunedol, digwyddiadau Cwmpawd Cathays, Casgliadau Sbwriel Cadwch Cathays yn Daclus a digwyddiadau cymunedol cyffredinol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**
Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau cymunedol i wella cyfleusterau yn Cathays, ac wedi dechrau gwario arian adran 106 i wella cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd a sefydliadau. Rydym wedi negodi priffyrdd beicio addas a pharcio i breswylwyr. Rydym wedi gweithio gyda'r adran Gynllunio i ddylanwadu ar y Canllaw Cynllunio Atodol a Rheoli Gwastraff i addysgu a gwella cydymffurfiaeth myfyrwyr. Rydym wedi cefnogi a mynychu nifer o ddigwyddiadau codi arian ac ymgyrchu. Rydym wedi cynhyrchu a danfon taflenni a chylchlythyron gydol y flwyddyn.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**
Wedi cefnogi a helpu nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn Ward Cathays er enghraifft Ffair Cathays, Picnic y Gwanwyn, Digwyddiadau Ysgolion, Achub Stryd Womanby, Digwyddiadau yn y Ganolfan Gymunedol a Digwyddiadau Ffydd.

**Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Norma Mackie, Sarah Merry a Chris Weaver**